

Mae S4C yn edrych am berson brwdfrydig i ymuno'r â'r Tîm Delwedd a Brand i gynhyrchu/cyfarwyddo ffilmiau byr creadigol sy'n hyrwyddo cynnwys y sianel ac yn gyrru gwyllo. Byddwch yn cyfarwyddo a chynhyrchu deunydd fideo o promos, teasers a showreels i hysbysebion digidol er mwyn codi ymwybyddiaeth am raglenni a denu gwylwyr i S4C - naill ai i wyllo rhaglenni ar deledu, ar-lein, ar-alw neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Byddwch yn gyfrifol am ddyfeisio cysyniadau creadigol ac yn cynhyrchu a chyfarwyddo deunydd aml-blatfform sydd yn hyrwyddo rhaglenni a chynnwys S4C yn y modd mwyaf effeithiol o fewn cyfyngderau amser ac arian. Drwy ffilmio deunydd arbennig neu gomisiynu delweddau, defnyddio clipiau o raglenni, graffeg neu animeiddiad, byddwch yn cadw gwerthoedd brand S4C yn greiddiol i'ch gwaith.

Yn ogystal â chynhyrchu a chyfarwyddo'r promos hyn ar gyfer amrediad eang o gynnwys S4C (drama, adloniant, dogfennau, digwyddiadau), byddwch hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu deunydd i hyrwyddo gwahanol elfennau o wasanaeth S4C mewn amrywiaeth o leoliadau ac ar amrediad o lwyfannau (teledu, cyfryngau cymdeithasol, sgriniau digidol ayyb).

Yn ddelfrydol byddwch â phrofiad o gyfarwyddo, golygu ac ôl-gynhyrchu ac o gyfarwyddo sesiynau trosleisio. Byddwch a barn olygyddol gref, gwybodaeth eang o dechnegau saethu/golygu, gwybodaeth am gerddoriaeth gyfoes Cymraeg a gwybodaeth eang am arlwy S4C ar draws y llwyfannau gwahanol. Y gallu i fras olygu gan ddefnyddio Avid yn ddymunol. Dyfeisgarwch ac egni'n angenrheidiol.

Ymhlith y pethau eraill y byddwch yn gyfrifol amdanynt mae (heb gyfyngiad):-

- ysgrifennu sgript troslais cywir yn y Gymraeg a'r Saesneg
- ymateb i friff creadigol
- cyfarwyddo talent yn ôl y galw
- cydweithio ar faterion creadigol gydag unigolion a thimoedd eraill o fewn S4C megis marchnata, comisiynu, cyflwyno, technegol a hawliau
- sicrhau bod pob trêl yn cydymffurfio â chanllawiau golygyddol S4C ac Ofcom a chanllawiau brand S4C
- unrhyw waith cysylltiol arall yn unol â chyfarwyddiadau'r Arweinydd Tîm Delwedd a Brand neu gyfrifoldebau rhesymol eraill sydd yn cael eu pennu yn ôl y galw fel rhan o'r broses werthuso flynyddol.

Manyleb Person

Nodweddion	Hanfodol	Dymunol
Profiad	Dealltwriaeth o fwriad ac anghenion “promo”. Profiad neu ddealltwriaeth, o waith ôl-gynhyrchu. Profiad o sgriptio, a chyfarwyddo sesiynau trosleisio a dybio.	Profiad o gyfarwyddo unedau un camera. Y gallu i fras olygu yn defnyddio Avid. Profiad o gomisiynu/briffio dylunwyr graffeg ac animeiddwyr. Adnabyddiaeth o amserlen S4C.
Sgiliau a gwybodaeth	Y gallu i ymateb i friff creadigol Y gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.	Dealltwriaeth o sianeli cyfryngau cymdeithasol S4C (Facebook, Twitter, Snapchat ac Instagram).
Nodweddion personol	Yn gallu i ddyfeisio, creu a chyflawni ymgyrchoedd creadigol. Y gallu i ymateb yn bositif ac yn gyflym i adborth Yn fodlon gweithio oriau anghymdeithasol yn ôl y gofyn.	Adnabyddiaeth o gerddoriaeth boblogaidd Gymraeg.

Manylion eraill

- Lleoliad:** Lleoliad arferol eich gwaith fydd S4C, Sgwâr Canolog Caerdydd. Disgwylir i chi deithio i le bynnag y bydd S4C yn rhesymol yn ei orchymyn o dro i dro.
- Cyflog:** Yn unol â phrofiad
- Cytundeb:** 12 mis
- Oriau gwaith:** 35.75 awr yr wythnos. Oherwydd natur y swydd disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio ar rai penwythnosau a gwyliau banc ac mewn digwyddiadau gyda’r nos. Bydd y cyflog yn cymryd i ystyriaeth yr oriau ychwanegol y mae’n bosibl y bydd angen i chi weithio.
- Cyfnod prawf:** 6 mis
- Gwyliau:** Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau.

Pensiwn:

Os byddwch yn ymuno â'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

Ceisiadau

Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn 12:00 yn y prynhawn ar ddydd Llun 4 Gorffennaf 2022 i adnoddau.dynol@s4c.cymru neu'r Adran Adnoddau Dynol, S4C, Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin SA31 3EQ.

Ni dderbynnir CV.

Gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg. Ni fydd unrhyw gais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn y Saesneg.

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr rhan neu lawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, ailbennu rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd o iaith (heblaw lle mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer swydd) neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif. Mae S4C yn croesawu ac yn cymhell ceisiadau am swyddi oddi wrth grwpiau allai fod wedi eu tangynrychioli gan gynnwys merched, pobl dduon ac o leiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Gweithredir egwyddorion cystadleuaeth agored a theg a phenderfynir ar benodiadau ar sail teilyngdod.

